Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas**
**Corris**
**Machynlleth**
**Powys**
**SY20 9TQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Dyffryn Dulas ym mhentref gwledig Corris, sydd rhyw chwe milltir i'r gogledd o dref Machynlleth ym Mhowys. Mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn ysgolion Dyffryn Dulas a Phennal, a sefydlwyd yn 2012. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardaloedd cyfagos

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn rhan-amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae nifer y plant sydd yn dechrau yn yr ysgol wedi gostwng ychydig dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae 47 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r plant yn cael eu haddysgu mewn tri dosbarth cymysg eu hoedran yn y bore a dau ddosbarth yn y prynhawn. Rhennir arbenigedd staff y ddwy ysgol ar gyfer addysgu rhai o'r pynciau sylfaen.

Mae 12% o ddisgyblion yr ysgol â hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim ar hyn o bryd, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 21%.

Mae ffigyrau cenedlaethol yn nodi bod 22% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn nodi bod 6% o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle'r Gymraeg yw iaith yr aelwyd. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Mae tua 23% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2007.

Dros y deunaw mis diwethaf, mae peth ansefydlogrwydd wedi bod ymysg staff ac arweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r pennaeth strategol dros dro yr ysgol yn arwain a rheoli Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal ers mis Medi 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas yn 2013-2014 yw £4,630. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,616, a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas yn y 37fed safle o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu;
- bod medrau llafar llawer o ddisgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan;
- bod safon yr addysgu yn y mwyafrif o wersi a arsylwyd yn gyffredinol dda, gydag elfennau da iawn yn y Cyfnod Sylfaen;
- bod cyfradd bresenoldeb yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru; a
- bod disgyblion yr ysgol yn dangos parch, gofal a chonsyrn tuag at eraill yn gyson.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddigon estynedig ar draws ystod o bynciau yn y ddwy iaith;
- nid yw medrau llythrennedd a rhifedd wedi eu cynllunio'n ddigon manwl ar draws y cwricwlwm;
- nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol yng nghyfnod allweddol 2; ac
- nid yw gweithdrefnau asesu'r ysgol wedi datblygu'n llawn i sicrhau lefelu gwaith effeithiol nac i olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon llwyddiannus.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod y pennaeth strategol dros dro yn rhoi arweiniad clir a chadarn i'r ysgol;
- bod gan y pennaeth strategol dros dro ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir;
- bod corff llywodraethol yr ysgolion ffederal yn ymroddgar ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau;
- bod y pennaeth strategol wedi llwyddo i greu arfarniad cywir a chraff o sefyllfa bresennol yr ysgol; a
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinyddiaeth ar draws yr ysgol wedi datblygu'n llawn i sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch, yn enwedig mewn Cymraeg;
- nid yw arweinwyr yr ysgol yn gweithredu'n ddigon effeithiol ar wybodaeth yn deillio o'r monitro er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau yn yr addysgu a'r asesu; ac
- nid yw'r trefniadau i safoni a chymedroli gwaith disgyblion wedi datblygu'n llawn er mwyn sicrhau dilysrwydd lefelau asesiadau athrawon.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod cynllunio manwl ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yng nghyfnod allweddol 2

A3 Ymestyn lefel yr her i ddisgyblion o allu uwch ar draws yr ysgol a datblygu gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i fod yn ddysgwyr annibynnol

A4 Gwella prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

A5 Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu prosesau'r ysgol yn fwy effeithiol er mwyn gwella cyflawniadau disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Dyffryn Dulas yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud, ac mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n frwdfrydig yng ngweithgareddau'r dosbarth. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y dylent, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n llwyddiannus yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau ac yn siarad yn briodol gan ddangos gafael gynyddol ar gystrawen Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith ac mae eu geirfa'n datblygu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i fod yn ddwyieithog erbyn diwedd y cyfnod allweddol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda mynegiant gan ddefnyddio ystod o strategaethau darllen yn effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall ychydig o ddisgyblion drafod cynnwys yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau y maent yn eu darllen. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu hysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ysgrifennu dilyniant o frawddegau gan ddangos gafael briodol o atalnodi sylfaenol a phatrymau iaith cadarn. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n ddychmygus ac yn annibynnol gan ddefnyddio geirfa fwy eang i greu effeithiau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae eu dealltwriaeth o ddarllen yn datblygu'n dda. Mae'r mwyafrif yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol i gaffael gwybodaeth benodol o destun. Mae'r goreuon yn trafod ystod o ddeunydd darllen yn aeddfed gan fynegi barn am eu hoff awduron. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn darllen gyda llai o rugldеr a mynegiant yn y Gymraeg.

At ei gilydd, mae'r mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig yn y ddwy iaith ac yn dangos ymwybyddiaeth addas o atalnodi a pharagraffu. Er hynny, nid oes digon o gynnydd yng ngwaith ysgrifenedig mwyafrif o ddisgyblion. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth

ymdrin â phatrymau rhif yng ngwaith celf. Gwelwyd ychydig o esiamplau o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio'u medrau rhifedd ar y lefel briodol mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth, er enghraifft trin data wrth gofnodi canlyniadau arbrawf ffrithiant. Fodd bynnag, nid yw medrau rhifedd disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi datblygu'n llawn ar draws ystod o bynciau.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a all effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Rhaid cymryd i ystyriaeth niferoedd bach sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wrth ddadansoddi data perfformiad yr ysgol.

Mae cyflawniadau'r disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 yn is na ffigurau'r teulu a Chymru ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch. Yn gyffredinol, roedd cyflawniadau disgyblion ar y deilliant disgwyliedig yn 2012 yn cymharu'n fwy ffafriol â ffigyrau Cymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhlith y 50% is neu'r 25% isaf ar y deilliant uwch dros y ddwy flynedd diwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na ffigyrau'r teulu a Chymru yn 2013. Yn gyffredinol, yr un yw'r patrwm dros y pedair blynedd diwethaf, ar wahân i 2012, lle'r oedd cyflawniad y disgyblion yn is ymhob pwnc. Nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyrraedd y lefelau uwch mewn Cymraeg dros y pedair blynedd diwethaf.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio ond, yn gyffredinol, wedi gosod yr ysgol yn naill ai'r 25% uchaf neu'r 50% uwch. Yn 2013, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch yn gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, ar wahân i mathemateg, lle mae perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo'n bryderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Trwy gymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol, mae ffitrwydd y disgyblion yn datblygu'n dda.

Mae canran bresenoldeb yr ysgol wedi bod yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf ac wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch dros y ddwy flynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i dderbyn cinio di dâl.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion yn dangos parch, gofal a chonsyrn tuag at eraill yn gyson. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi ac ar y buarth.

Mae aelodau’r cyngor ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Maent yn rhannau eu syniadau ac yn cyfrannu at benderfyniadau. Enghraifft o hyn yw’r modd mae’r disgyblion wedi cael mewnbwn i addurno’r adeilad. Mae cysylltiadau niferus gyda’r gymuned, megis noson Eidalaidd a gwasanaethau diolchgarwch, yn hybu perthynas gadarnhaol â’r ardal leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dysgu sy'n ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae nifer o ymweliadau ac ymwelwyr i’r ysgol yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae cynlluniau gwaith y Cyfnod Sylfaen yn fanwl ac yn sicrhau profiadau ysgogol. Caiff y disgyblion gyfleoedd i gyfrannu eu syniadau at yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae’r ysgol yn y broses o addasu cynlluniau gwaith cyfnod allweddol 2 mewn perthynas â gweithredu gofynion y Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd. Serch hynny, nid yw’r cynlluniau cyfredol yn nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm, yn cynnwys cyfleoedd i ysgrifennu’n estynedig ar draws ystod o bynciau yn y ddwy iaith. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda. Mae'r ysgol yn cynllunio’n briodol ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant a hanes o’r ardal leol a Chymru. Enghraifft o hyn yw gwaith ar chwedlau Cymru a phrosiect biosffer Bro Ddyfi.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o weithredu’n gynaliadwy’n effeithiol. Er hynny, nid oes digon o sylw yn cael ei roi i ddatblygu agweddau ar ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae safon yr addysgu yn y mwyafrif o wersi a arsylwyd yn gyffredinol dda gydag elfennau da iawn yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r rhan fwyaf o’r athrawon yn modelu iaith dda ac yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol.

Mewn mwyafrif o’r gwersi, mae cyflwyniadau’n fywiog ac mae’r gweithgareddau’n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Yn y gwersi hyn, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn holi’n effeithiol er mwyn hybu ymatebion estynedig gan y disgyblion.

Mewn lleiafrif o wersi cyfnod allweddol 2, lle nad yw’r addysgu cystal, nid yw’r tasgau’n herio disgyblion o allu uwch nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae’r ysgol yn defnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon yn briodol wrth asesu gwaith y disgyblion. Er hynny, nid yw’r ysgol yn defnyddio’r wybodaeth yn

deillio o asesiadau yn ddigon llwyddiannus i olrhain cynnydd disgyblion, er mwyn cynllunio'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae diffyg strwythur a chysondeb yn y modd y mae'r ysgol yn asesu gwaith disgyblion, ac nid oes trefniadau effeithiol ar waith i safoni gwaith disgyblion.

Mewn mwyafrif o'r dosbarthiadau, mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn addas. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau'n bob amser yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella safon eu gwaith.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus ac mae polisïau cadarn ar waith. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol i hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion tu fewn a thu allan i oriau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus drwy roi cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio mewn gwasanaethau rheolaidd yn yr ysgol ac mewn addoldai lleol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol ag asiantaethau arbenigol, megis gwasanaeth lles yr awdurdod, asiantaethau iechyd a'r heddlu. Mae cynlluniau diweddar i wella ymddygiad wedi cael effaith gadarnhaol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r cydlynydd yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cefnogaeth gadarn sydd wedi cyfrannu at wella safonau cyflawniad y disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu hadolygu yn rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae Ysgol Dyffryn Dulas yn gymuned gynhwysol lle mae disgyblion yn chwarae rhan llawn yn ei bywyd a'i gwaith.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol i bob plentyn ac i'r holl randdeiliaid. Mae hyn yn sicrhau mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol.

Mae digon o le y tu mewn i'r adeilad a gwna'r ysgol bob ymdrech i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol, deniadol a symbylus ar adeg o waith atgyweirio ac adeiladu. Mae ardal ddysgu dan do'r Cyfnod Sylfaen yn hybu profiadau cyfoethog a

diddorol i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol. Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau effeithiol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn dathlu gwaith a llwyddiannau disgyblion yn dda. Caiff yr adeilad ei chadw'n daclus mewn amgylchiadau anodd. Mae'r toiledau newydd yn hygyrch i unigolion ag anableddau.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae'r pennaeth strategol wedi rhoi arweiniad clir a chadarn i'r ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir. Mae'r trefniadau diweddar yn canolbwyntio'n benodol ar godi safonau gwaith disgyblion a mireinio systemau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau gwella a roddwyd ar waith yn cael eu gweithredu'n ddigon effeithiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn yn cyflawni gystal ag y gallent ar y lefelau uwch, yn enwedig yn y Gymraeg.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r uwch dîm rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac maent yn dechrau cymryd rôl fwy gweithredol yn strategaethau gwella'r ysgol. Enghraifft o hyn yw'r cynllun sydd ar waith i ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae gan gorff llywodraethol yr ysgolion ffederal ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad ac mae aelodau unigol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Er hynny, nid yw eu rôl ym mhrosesau strategol yr ysgol wedi'i datblygu'n llawn i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel y Cyfnod Sylfaen ac asesu ar gyfer dysgu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y pennaeth strategol a'r staff addysgu ddealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac maent yn ymwybodol o'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i godi safonau. Er hynny, nid yw effaith hyn i'w gweld ar gyflawniad disgyblion a pherfformiad yr ysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu diweddar yr ysgol yn ddogfen fanwl sy'n gwneud defnydd priodol o ddadansoddiadau data ac arfarniadau o safonau gwaith disgyblion. Mewn amser byr, mae'r pennaeth wedi llwyddo i lunio arfarniad cywir o sefyllfa bresennol yr ysgol, yn ogystal â phennu targedau cyraeddadwy ar gyfer gwella. Mae'r meysydd i'w datblygu yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol, er enghraifft trefniadau i godi safonau ysgrifennu a datblygu gallu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol yn gweithredu'n ddigon effeithiol ar wybodaeth yn deillio o'r monitro er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau yn yr addysgu a'r asesu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n manylu ar strategaethau addas i sicrhau'r gwelliannau. Mae'n pennu cyfrifoldebau arweiniol, a dangosyddion llwyddiant, ynghyd ag amserlen benodol a goblygiadau gwariant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion ac yn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr. Mae ganddi berthynas gref gyda rhieni a chyfeillion, ac mae cyllid sylweddol yn cael ei gyfrannu ganddynt ar gyfer prynu adnoddau ac offer defnyddiol ychwanegol. Mae cysylltiadau gyda'r gymuned yn effeithiol ac yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion.

Mae cysylltiadau priodol â'r cylch meithrin sy'n cyfarfod yn yr ysgol, ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau priodol gyda'r ysgolion uwchradd lleol a mae trefniadau pontio effeithiol ac ymweliadau staff a disgyblion yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Cydweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ysgolion clwstwr a'r ysgolion uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod i safoni a chymedroli asesiadau athrawon o waith disgyblion. Er hynny, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar ansawdd trefniadau safoni a chymedroli mewnol yr ysgol.

Mae partneriaeth gynhyrchiol yn datblygu gydag Ysgol Pennal, sy'n dechrau cael effaith ar safonau a chynnydd disgyblion, er enghraifft mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r cydweithio buddiol rhwng ysgolion y ffederasiwn i ddatblygu'r cynlluniau cyfredol wedi dechrau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld eu heffaith ar gyflawniadau'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a chymorthyddion ac fe'u defnyddir yn effeithiol i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol ac i roi cymorth priodol i unigolion.

Yn dilyn ffederaleiddio Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal ym Medi 2012, manteisir yn llawn ar arbenigedd staff y ddwy ysgol i gefnogi agweddau penodol ar y cwricwlwm, megis ym maes daearyddiaeth ac addysg gorfforol. Mae'r ansefydlogrwydd ymysg staff ac arweinyddiaeth yr ysgol dros y deunaw mis diwethaf wedi cael effaith ar allu'r ysgol i sicrhau cysondeb o ran yr addysgu a chodi safonau.

Mae system rheoli perfformiad statudol yn weithredol o fewn yr ysgol i athrawon a chymorthyddion yr ysgol. Mae hyn wedi arwain yn briodol at ddiwallu anghenion datblygiad proffesiynol y staff. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus mewn cymuned ddysgu broffesiynol i ddatblygu agweddau ar ddarllen yn y Cyfnod Sylfaen. Mae effaith hyn i weld ar safonau darllen disgyblion yr ysgol

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli’r gyllideb yn briodol, ac mae’r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro gwariant. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad priodol o adnoddau sy’n ymateb i anghenion yr ysgol.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid cymryd i ystyriaeth y niferoedd bach sy’n cael eu hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wrth ddadansoddi data perfformiad yr ysgol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 5 mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg yn is na ffigyrau’r teulu a chenedlaethol.  Fodd bynnag, bu gostyngiad arwyddocaol mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol rhwng 2012 a 2013. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd Cyfnod Sylfaen a’r meysydd dysgu eraill yn unigol yn is na chyfartaleddau’r teulu a Chymru yn 2013.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyrraedd y deilliant uwch mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg a datblygiad mathemategol dros y ddwy flynedd diwethaf.  O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhlith y 50% is a’r 25% isaf ar y deilliant uwch dros y ddwy flynedd diwethaf.  Tebyg yw’r patrwm ar y deilliant disgwyliedig, ac eithrio 2012 pan roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na ffigyrau’r teulu a Chymru yn 2013.  Yn gyffredinol, yr un fu’r patrwm dros y pedair blynedd diwethaf ar wahân i 2012, lle'r oedd cyflawniad y disgyblion yn is ymhob pwnc.  Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch mewn Cymraeg a Saesneg yn is na chyfartaleddau’r teulu a Chymru.  Dros gyfnod o bum mlynedd, mae cyflawniad disgyblion mewn ysgrifennu ar lefel 4 neu uwch wedi codi i 100%.  Nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyrraedd y lefelau uwch mewn Cymraeg dros y pedair blynedd diwethaf.  Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio ond yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn 25% uchaf i’r 50% uwch.  Yn 2013, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch yn gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg sydd â hawl i brydau ysgol ddi-dâl ar wahân mewn mathemateg lle mae perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf.

Nid oes patrwm arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2.  Nid oes patrwm arwyddocaol ychwaith dros gyfnod o ran cyflawniadau disgyblion sydd â’r hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl o’u cymharu â chyflawniadau gweddill y garfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 20 | 19<br>95%<br>98% | 1<br>5%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 19 | 19<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 20 | 19<br>95%<br>96% | 1<br>5%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 20 | 20<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 19 | 19<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 18 | 17<br>94%<br>96% | 1<br>6%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 19 | 19<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 19 | 19<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 19 | 16<br>84%<br>91% | 3<br>16%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 20 | 20<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 19 | 17<br>89%<br>78% | 2<br>11%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 20 | 19<br>95%<br>84% | 1<br>5%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Alun Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Edwards | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.